| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **DYDDIAD** | 10 Chwefror 2022 |
| **PWNC** | Penderfyniad Cabinet 18/01/2022<br>Eitem 6 – Dathlu Dydd Gŵyl Dewi |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Mae’r penderfyniad a ganlyn wedi ei alw i mewn i’w graffu yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor: –

   **<u>Eitem 6: Dathlu Dydd Gŵyl Dewi, cyfarfod Cabinet 18/01/2022</u>**

   “**Dynodi dydd Gŵyl Ddewi 2022 yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy’n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i’w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o’r adroddiad**”

2. Gwnaethpwyd y cais i alw’r penderfyniad i mewn i’w graffu gan y Cynghorwyr John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor), Angela Russell a Sion Jones o fewn y gofynion a’r amserlen angenrheidiol.

3. Mae’r rhesymau am alw mewn, hynny yw'r agweddau o’r penderfyniad ystyrir dylid eu craffu ac sydd o fewn gofynion Cyfansoddiadol, wedi eu nodi fel a ganlyn:

   “Pryder ynglyn a’r gost i Gyngor Gwynedd i ganiatau diwrnod gwyliau ychwanegol i holl staff yr awdurdod, cost o ddeutu £200 mil wedi ei ddarganfod yn y cyfnod ariannol anodd sy’n bodoli i bawb, credir gall yr arian hyn gael ei ddefnyddio i bwrpas arall er budd pobl Gwynedd. Gofynnwn felly i’r Cabinet ail ystyried y penderfyniad yma hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn cael yr hawl i ganiatau diwrnod banc ychwanegol ar Ddydd Gwyl Ddewi, ar 1af Mawrch i Gymru gyfan.”

4. Er mwyn cynorthwyo’r Pwyllgor i graffu ar y mater yn unol â’r agweddau o’r penderfyniad yr ystyrir y dylid eu craffu amgaeir y dogfennau isod gyda’r adroddiad hwn.

   - Atodiad 1 – Taflen penderfyniad y Cabinet (Eitem 6, 18/01/2022)
   - Atodiad 2 – adroddiad y Cabinet (Eitem 6, 18/01/2022)

   Nid oes ymateb penodol wedi ei ddarparu gan yr Aelod Cabinet gan fod y wybodaeth i gyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad aeth i’r Cabinet ar y 18fed o Ionawr, 2022.